**Cytundeb defnydd derbyniol dysgwyr**

**Polisi'r ysgol**

Mae technolegau digidol wedi dod yn rhan anhepgor o fywydau plant a phobl ifanc, yn yr ysgol ac oddi allan i'r ysgol. Mae'r technolegau hyn yn arfau grymus sy'n cynnig cyfleoedd newydd i bawb. Gallant sbarduno trafodaethau, hybu creadigrwydd a gwella ymwybyddiaeth o gyd-destun i annog addysgu effeithiol. Dylai fod gan bobl ifanc hawl i gael mynediad mwy diogel i'r rhyngrwyd bob amser.

Diben y cytundeb defnydd derbyniol yw sicrhau'r canlynol:

- y bydd dysgwyr yn ddefnyddwyr cyfrifol ac yn aros yn ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd a thechnolegau digidol eraill at ddibenion addysgol , personol a hamdden.
- y caiff systemau a defnyddwyr yr ysgol eu gwarchod rhag camddefnydd damweiniol neu fwriadol a allai beryglu diogelwch y systemau a'r defnyddwyr.

Bydd yr ysgol yn ceisio sicrhau fod gan ddysgwyr fynediad da at dechnolegau i wella eu profiad dysgu, ac yn sgil hynny, bydd yr ysgol yn disgwyl i'r dysgwyr gytuno i fod yn ddefnyddwyr cyfrifol.

**Cytundeb Defnydd Derbyniol**

Deallaf bod yn rhaid i mi ddefnyddio systemau'r ysgol yn gyfrifol, i sicrhau na chaiff fy niogelwch i na diogelwch y systemau a defnyddwyr eraill eu peryglu.

I sicrhau fy niogelwch personol i:

- Deallaf y bydd yr ysgol yn monitro fy nefnydd o'r systemau, dyfeisiau a chyfathrebu digidol.
- Byddaf yn cadw fy enw defnyddiwr a fy nghyfrinair yn ddiogel - ni wnaf eu rhannu ag eraill, ac ni wnaf geisio defnyddio enw defnyddiwr na chyfrinair rhywun arall. Deallaf na ddylwn ysgrifennu na chadw cyfrinair yn rhywle lle gallai rhywun ei ddwyn.
- Rwy'n ymwybodol o "beryglon pobl ddiarth" pan fyddaf yn cyfathrebu ar-lein.
- Ni wnaf ddatgelu na rhannu gwybodaeth bersonol amdanaf i fy hun nac am eraill pan fyddaf ar-lein (gallai hyn gynnwys enwau, cyfeiriadau, cyfeiriadau e-byst, rhifau ffôn, oedran, rhyw, manylion addysgol, manylion ariannol ac ati).
- Os byddaf yn trefnu i gwrdd â phobl rwyf wedi cyfathrebu â hwy ar-lein yn y byd all-lein, byddaf yn trefnu i wneud hynny mewn lle cyhoeddus ac yn mynd gydag oedolyn.
- Byddaf yn rhoi gwybod yn syth am unrhyw ddeunyddiau neu negeseuon annymunol neu anaddas, neu am unrhyw beth sy'n gwneud i mi deimlo'n anghyfforddus ar-lein.

Deallaf fod gan bawb hawliau cyfartal i ddefnyddio technoleg fel adnodd ac:

- Rwy'n deall mai defnydd addysgol yw prif ddiben systemau a dyfeisiau'r ysgol, ac ni wnaf eu defnyddio at ddibenion personol neu hamdden oni fyddaf wedi cael caniatâd.
- Ni wnaf geisio (oni fyddaf wedi cael caniatâd) lawrlwytho neu lwytho ffeiliau mawr a allai arafu'r rhyngrwyd ac atal defnyddwyr eraill rhag gwneud eu gwaith.
- Ni wnaf ddefnyddio systemau na dyfeisiau'r ysgol i chwarae gemau ar-lein, gamblo ar-lein, siopa ar-lein, rhannu ffeiliau neu ddarlledu fideos (e.e. Youtube), oni fyddaf wedi cael caniatâd gan aelod o staff i wneud hynny.

Byddaf yn ymddwyn fel y byddaf yn disgwyl i eraill ymddwyn tuag ataf i:

- Byddaf yn parchu gwaith ac eiddo pobl eraill ac ni fyddaf yn cyrchu, copïo, symud na newid ffeiliau unrhyw ddefnyddiwr arall, oni fydd y perchennog yn gwybod am hynny ac wedi rhoi caniatâd i mi.
- Byddaf yn gwrtais ac yn gyfrifol pan fyddaf yn cyfathrebu ag eraill, ac ni wnaf ddefnyddio iaith gref, ymosodol nac anaddas, ac rwy'n gwerthfawrogi fod gan bobl eraill safbwyntiau gwahanol.
- Ni wnaf dynnu lluniau o neb na'u dosbarthu heb eu caniatâd.

**_Learner acceptable use agreement_**

**_School policy_**

*Digital technologies have become integral to the lives of children and young people, both within and outside schools. These technologies are powerful tools, which open up new opportunities for everyone. They can stimulate discussion, promote creativity and stimulate awareness of context to promote effective learning. Young people should have an entitlement to safer internet access at all times.*

*This Acceptable use agreement is intended to ensure:*

- *that learners will be responsible users and stay safe while using the internet and other digital technologies for educational, personal and recreational use.*
- *that school systems and users are protected from accidental or deliberate misuse that could put the security of the systems and users at risk.*

*The school will try to ensure that learners will have good access to digital technologies to enhance their learning and will, in return, expect the learners to agree to be responsible users.*

**_Acceptable use agreement_**

*I understand that I must use school systems in a responsible way, to ensure that there is no risk to my safety or to the safety and security of the systems and other users.*

*For my own personal safety:*

- *I understand that the school will monitor my use of systems, devices and digital communications.*
- *I will keep my username and password safe and secure – I will not share it, nor will I try to use any other person's username and password. I understand that I should not write down or store a password where it is possible that someone may steal it.*
- *I will be aware of "stranger danger", when I am communicating online*
- *I will not disclose or share personal information about myself or others when online (this could include names, addresses, email addresses, telephone numbers, age, gender, educational details, financial details, etc.).*
- *If I arrange to meet people off-line that I have communicated with online, I will do so in a public place and take an adult with me.*
- *I will immediately report any unpleasant or inappropriate material or messages or anything that makes me feel uncomfortable when I see it online.*

*I understand that everyone has equal rights to use technology as a resource and:*

- *I understand that the school systems and devices are primarily intended for educational use and that I will only use them for personal or recreational use if I have permission.*
- *I will only make large downloads or uploads that might take up internet capacity and prevent other users from being able to carry out their work, if I have permission.*
- *I will only use the school systems or devices for online gaming, online gambling, internet shopping, file sharing, or video broadcasting (eg YouTube), if I have permission of a member of staff to do so.*

*I will act as I expect others to act toward me:*

- *I will respect others' work and property and will only access, copy, remove or alter any other user's files, with the owner's knowledge and permission.*
- *I will be polite and responsible when I communicate with others, I will not use strong, aggressive or inappropriate language and I appreciate that others may have different opinions.*
- *I will only take or distribute images of others with their permission.*

Rwy’n cydnabod fod gan yr ysgol gyfrifoldeb i gynnal diogelwch ac integredd y dechnoleg y mae’n ei chynnig i mi ac i sicrhau fod yr ysgol yn rhedeg yn effeithiol:

- Ni wnaf ddefnyddio fy nyfais/fy nyfeisiau personol fy hun yn yr ysgol oni fyddaf wedi cael caniatâd i wneud hynny.
- Os byddaf yn defnyddio fy nyfais/fy nyfeisiau fy hun yn yr ysgol, rwy’n deall y bydd rhaid i mi ddilyn y rheolau sydd wedi'u cynnwys yn y cytundeb hwn, yn union fel pe bawn yn defnyddio offer yr ysgol.
- Rwy’n deall y peryglon ac ni wnaf geisio llwytho, lawrlwytho na chyrchu unrhyw ddeunyddiau sy’n anghyfreithlon, sy’n anaddas, sy’n ddeunydd a allai niweidio pobl eraill neu beri gofid iddyn nhw, ac ni wnaf geisio defnyddio unrhyw raglenni neu feddalwedd sy’n gallu osgoi’r systemau hidlo/diogelwch sydd yn eu lle i atal mynediad at ddeunyddiau o’r fath.
- Byddaf yn rhoi gwybod yn syth am unrhyw ddifrod neu namau sy’n ymwneud ag offer neu feddalwedd, waeth beth fydd wedi achosi hynny.
- Ni wnaf agor unrhyw hypergysylltiadau mewn e-byst nac unrhyw atodiadau sydd ynghlwm wrth e-byst onid wyf yn adnabod ac yn ymddiried yn yr unigolyn/sefydliad sy’n anfon yr e-byst hynny (oherwydd bod firysau neu raglenni peryglus eraill yn gallu cael eu cynnwys yn yr atodiad).
- Ni wnaf osod na storio rhaglenni ar ddyfeisiau’r ysgol heb ganiatâd.
- Byddaf yn defnyddio safleoedd cyfryngau cymdeithasol â chaniatâd yn unig ac ar yr adegau y caniateir i mi wneud hynny.

Wrth ddefnyddio’r rhyngrwyd at ddibenion ymchwil neu hamdden, rwy'n cydnabod y canlynol:

- Dylwn sicrhau bod gennyf ganiatâd i gynnwys gwaith gwreiddiol pobl eraill yn fy ngwaith fy hun.
- Ni wnaf geisio lawrlwytho copïau o waith sydd wedi cael ei amddiffyn gan hawlfraint (gan gynnwys cerddoriaeth a fideos).
- Pan fyddaf yn defnyddio’r rhyngrwyd i edrych am wybodaeth, dylwn ofalu fy mod yn sicrhau bod yr wybodaeth honno’n gywir. Rwy’n deall y gallai gwaith pobl eraill fod yn wallus, a gallai hynny fod yn ymgais fwriadol i fy nghamarwain.

Rwy’n deall fy mod yn atebol am fy ngweithredoedd, yn yr ysgol ac oddi allan i'r ysgol:

- Rwy’n deall fod gan yr ysgol hawl i gymryd camau yn fy erbyn os byddaf yn cymryd rhan mewn digwyddiadau annerbyniol sy’n cael eu trafod yn y cytundeb hwn, pan fyddaf yn yr ysgol a phan fydd y digwyddiadau’n gysylltiedig â chymuned yr ysgol (byddai enghreifftiau yn cynnwys seiberfwlio, defnyddio delweddau neu wybodaeth bersonol).
- Rwy’n deall y byddaf yn wynebu camau disgyblu os na fyddaf yn cydymffurfio â’r cytundeb defnydd derbyniol hwn. Gall hyn gynnwys colli'r hawl i ddefnyddio rhwydwaith/rhyngrwyd yr ysgol, cyfnodau cosb, gwaharddiadau dros dro, cysylltu â fy rhieni, ac mewn achos o weithgareddau anghyfreithlon, cysylltu â’r heddlu.

**Llenwch yr adrannau ar y dudalen nesaf os gwelwch yn dda i nodi eich bod wedi eu darllen a’u deall ac yn cytuno â'r adrannau sydd wedi’u cynnwys yn y cytundeb defnydd derbyniol. Os na fyddwch yn llofnodi a dychwelyd y cytundeb hwn, ni chaniateir i chi ddefnyddio systemau a dyfeisiau’r ysgol.**

*I recognise that the school has a responsibility to maintain the security and integrity of the technology it offers me and to ensure the smooth running of the school :*

- *I will not use my own personal device(s) in school unless I have been given permission to do so. .*
- *If I have permission I understand that, if I do use my own device(s) in the school, I will follow the rules set out in this agreement, in the same way as if I was using school equipment*
- *I understand the risks and will not try to upload, download or access any materials which are illegal or inappropriate or may cause harm or distress to others, nor will I try to use any programmes or software that might allow me to bypass the filtering/security systems in place to prevent access to such materials*
- *I will immediately report any damage or faults involving equipment or software, however this may have happened*
- *I will only open hyperlinks in emails or attachments to emails, if I know and trust the person/organisation who sent the email, and have no concerns about the validity of the email (due to the risk of the attachment containing viruses or other harmful programmes)*
- *I will only install/ store programmes on a school device, if I have permission*
- *I will only use social media sites with permission and at the times that are allowed.*

*When using the internet for research or recreation, I recognise that:*

- *I should ensure that I have permission to use the original work of others in my own work*
- *Where work is protected by copyright, I will not try to download copies (including music and videos)*
- *When I am using the internet to find information, I should take care to check that the information that I access is accurate, as I understand that the work of others may not be truthful and may be a deliberate attempt to mislead me.*

*I understand that I am responsible for my actions, both in and out of school :*

- *I understand that the school also has the right to take action against me if I am involved in incidents of inappropriate behaviour, that are covered in this agreement, when I am out of school and where they involve my membership of the school community (examples would be cyber-bullying, use of images or personal information)*
- *I understand that if I fail to comply with this acceptable use agreement, I will be subject to disciplinary action. This may include loss of access to the school network/internet, detentions, suspensions, contact with parents and in the event of illegal activities involvement of the police.*

***Please complete the sections below / on the next page to show that you have read, understood and agree to the rules included in the acceptable use agreement. If you do not sign and return this agreement, access will not be granted to school systems and devices.***

## Ffurflen Defnydd Derbyniol Dysgwyr

Mae'r ffurflen hon yn berthnasol i gytundeb defnydd derbyniol dysgwyr, ac mae wedi'i hatodi â'r ddogfen honno.

A fyddech cystal â llenwi'r adrannau isod i nodi eich bod wedi darllen a deall yr adrannau sydd yn y cytundeb defnydd derbyniol ac yn cytuno â nhw. Os na fyddwch yn llofnodi a dychwelyd y cytundeb hwn, ni chaniateir i chi ddefnyddio systemau yr ysgol.

Rwyf wedi darllen ac yn deall yr wybodaeth uchod ac yn cytuno i ddilyn y canllawiau hyn:

- Pan fyddaf yn defnyddio systemau a dyfeisiau'r ysgol (yn yr ysgol ac oddi allan i'r ysgol)
- Pan fyddaf yn defnyddio fy nyfeisiau fy hun yn yr ysgol (pan ganiateir i mi wneud hynny) e.e. dyfeisiau chwarae gemau, camerâu ac ati
- Byddaf yn defnyddio fy offer fy hun oddi allan i'r ysgol mewn modd sy'n gysylltiedig â bod yn aelod o'r ysgol, e.e. cyfathrebu ag aelodau eraill o'r ysgol, defnyddio e-bost yr ysgol, llwyfan dysgu, gwefannau ac ati.

Enw'r Dysgwr ……………………………………………

Grŵp / Dosbarth ……………………………………………

Llofnod ……………………………………………

Dyddiad ……………………………………………

Cydlofnod Rhiant / Gofalwr

Enw'r Rhiant/ Gofalwr .........................................................................................

Llofnod ................................................... Dyddiad .................................................

**Learner acceptable use agreement form**

*This form relates to the learner acceptable use agreement, to which it is attached.*

*Please complete the sections below to show that you have read, understood and agree to the rules included in the acceptable use agreement. If you do not sign and return this agreement, access will not be granted to school systems.*

*I have read and understood the above and agree to follow these guidelines when:*

- *I use the school systems and devices (both in and out of school)*
- *I use my own devices in the school (when allowed), e.g. gaming devices, cameras etc*
- *I use my own equipment out of the school in a way that is related to me being a member of this school e.g. communicating with other members of the school, accessing school email, learning platform, website, etc.*

*Name of Learner:*..............................................................

*Group/Class* ..............................................................

*Signed:* ..............................................................

*Date:* ..............................................................

*Parent/Carer Countersignature*

*Name of parent / carer* ......................................................................

*Signature* .................................................... *Date* .................................................

**Cytundeb defnydd derbyniol rhieni a gofalwyr**

Mae technolegau digidol wedi dod yn rhan anhepgor o fywydau plant a phobl ifanc, o fewn yr ysgol a'r tu allan. Mae'r technolegau yma yn darparu teclynnau pwerus, sydd yn rhoi cyfleoedd newydd i bawb. Gallant ysgogi trafodaeth, hyrwyddo creadigrwydd ac ysgogi ymwybyddiaeth o gyd-destun i hyrwyddo dysgu effeithiol. Dylai pobl ifanc gael mynediad diogel i'r rhyngrwyd bob amser.

Diben y Polisi Defnydd Derbyniol yma ydy i sicrhau:

- bod pobl ifanc yn ddefnyddwyr cyfrifol ac yn aros yn ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd a thechnolegau digidol eraill ar gyfer defnydd addysgiadol, personol a hamddenol.
- bod systemau'r ysgol a'r defnyddwyr yn cael eu hamddiffyn rhag camddefnydd damweiniol neu bwrpasol a allai beryglu diogelwch y systemau a'r defnyddwyr.
- bod rhieni a gofalwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd diogelwch ar-lein ac yn helpu i addysgu ac arwain pobl ifanc yn eu hymddygiad ar-lein.

Bydd yr ysgol yn ceisio sicrhau bod gan ddysgwyr fynediad da at dechnolegau digidol er mwyn gwella'r addysgu. Byddant felly'n disgwyl i'r dysgwyr gytuno i fod yn ddefnyddwyr cyfrifol. Mae copi o gytundeb defnydd derbyniol dysgwyr wedi'i atodi i'r ffurflen ganiatâd hon, fel bod rhieni a gofalwyr yn ymwybodol o ddisgwyliadau'r ysgol o'r bobl ifanc yn eu gofal.

Mae disgwyl i rieni arwyddo'r ffurflen ganiatâd isod i ddangos eu bod yn cefnogi'r elfen bwysig hon yng ngwaith ysgol.

**Ffurflen Caniatâd**

Enw Rhiant/Gofalwr: ……………………………. Enw Dysgwr/Dysgwyr: ………………………………

Fel rhiant/gofalwr o'r dysgwr/dysgwyr uchod, rwyf yn rhoi caniatâd i'm mab/merch gael mynediad i'r rhyngrwyd ac i systemau technoleg digidol yr ysgol .

Rwy'n gwybod bod fy mab/merch wedi arwyddo cytundeb defnydd derbyniol ac wedi derbyn, neu am dderbyn, addysg diogelwch ar-lein i'w helpu i ddeall pwysigrwydd defnydd diogel o dechnoleg a'r rhyngrwyd - y tu mewn ac oddi allan i'r ysgol.

Rwy'n deall y bydd yr ysgol yn cymryd pob rhagofal diogelwch rhesymol, gan gynnwys defnyddio systemau monitro a hidlo, i sicrhau bod pobl ifanc yn ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd a'r systemau technoleg digidol. Rwyf hefyd yn deall nad yw'r ysgol yn gallu cael eu dal yn gyfrifol yn y pen draw am natur a chynnwys unrhyw ddeunydd sy'n cael ei weld ar y rhyngrwyd ac wrth ddefnyddio technolegau symudol.

Rwy'n deall y bydd gweithgareddau fy mab/merch ar y systemau technoleg digidol yn cael eu fonitro a bydd yr ysgol yn cysylltu os oes unrhyw bryderon o ran mynd yn erbyn y cytundeb defnydd derbyniol.

Byddaf yn annog fy mhlentyn i fabwysiadu defnydd diogel o'r rhyngrwyd a thechnolegau digidol gartref a byddaf yn hysbysu'r ysgol os oes gennyf unrhyw bryderon am diogelwch ar-lein fy mhlentyn.

Arwyddwyd: ……………………….........        Dyddiad: …………………………………………..

***Parent/carer acceptable use agreement***

*Digital technologies have become integral to the lives of children and young people, both within schools and outside school. These technologies provide powerful tools, which open up new opportunities for everyone. They can stimulate discussion, promote creativity and stimulate awareness of context to promote effective learning. Young people should have an entitlement to safe internet access at all times.*

*This Acceptable Use Policy is intended to ensure:*

- *that young people will be responsible users and stay safe whilen using the internet and other digital technologies for educational, personal and recreational use.*
- *that school systems and users are protected from accidental or deliberate misuse that could put the security of the systems and users at risk.*
- *that parents and carers are aware of the importance of online safety and are involved in the education and guidance of young people with regard to their online behaviour.*

*The school will try to ensure that learners will have good access to digital technologies to enhance their learning and will, in return, expect the learners to agree to be responsible users. A copy of the Learner Acceptable use agreement is attached to this permission form, so that parents/carers will be aware of the school expectations of the young people in their care.*

*Parents are requested to sign the permission form below to show their support of the school in this important aspect of the school's work.*

***Permission Form***

*Parent/Carers Name:*............................................ *Learner's Name* ..........................................

*As the parent/carer of the above learner(s), I give permission for my son/daughter to have access to the internet and to digital technology systems at school.*

*I know that my son/daughter has signed an acceptable use agreement and has received, or will receive, online safety education to help them understand the importance of safe use of technology and the internet – both in and out of school.*

*I understand that the school will take every reasonable precaution, including applying monitoring and filtering systems, to ensure that young people will be safe when they use the internet and digital technology systems. I also understand that the school cannot ultimately be held responsible for the nature and content of materials accessed on the internet and using mobile technologies.*

*I understand that my son's/daughter's activity on the digital technology systems will be monitored and that the school will contact me if they have concerns about any possible breaches of the acceptable use agreement.*

*I will encourage my child to adopt safe use of the internet and digital technologies at home and will inform the school if I have concerns over my child's online safety.*

*Signed* .............................................................................. *Date:* ..........................................